cyngor ar bopeth

ofgem

# YNNI -Y FARGEN ORAU

# Ynni – y Fargen Orau

Mae prisiau nwy a thrydan yn codi ond mae ffyrdd i dorri'n ôl ar gost eich biliau ynni bob amser:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y fargen ynni orau ar eich cyfer chi.
- Os ydych chi'n cael trafferth talu biliau – gofynnwch am help gan y cyflenwyr neu gynlluniau'r llywodraeth.
- Gwnewch eich cartref yn fwy ynni effeithlon.
- Fe all Ynni - y Fargen Orau eich helpu chi i beidio â thalu dim mwy na sydd raid i chi.

# Datblygiadau yn y sector ynni – symlach, glanach, tecach

Mae'n ofynnol i gyflenwyr sicrhau'r canlynol erbyn hyn:

- Mae nifer y tariffau wedi cael eu cyfyngu i 4 ar gyfer nwy a 4 ar gyfer trydan ac mae eu strwythurau tariff yn symlach.

- Maen nhw'n rhoi gwybodaeth well ar filiau ac ar eich crynodeb blynyddol i'ch helpu chi i gymharu cynigion.

- Maen nhw'n eich trin chi'n deg wrth i chi gysylltu â nhw.

Rhagor o wybodaeth a llyfryn defnyddiol i'w lwytho i lawr o www.goynnishopping.co.uk.

# Bob blwyddyn, gofynnwch i chi eich hun:

- ’Fyddai newid cyflenw(y)r yn arbed arian i mi?
- Ydw i’n gymwys i gael budd-daliadau lles?
- Ydw i’n gymwys i gael grant i wella effeithlonrwydd ynni fy nghartref?
- Ydw i’n cael y fargen orau ar ynni a/neu’r opsiwn talu gorau? (yn dibynnu ar eich anghenion)

# Yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud dewis doeth

Chwiliwch am eich crynodeb blynyddol neu eich bil diweddaraf. Bydd yn dangos:

- enw'r tariff rydych arno ar hyn o bryd, a'r tariff rhataf i chi
- faint o ynni rydych chi wedi'i ddefnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf
- eich rhagolwg personol – faint o ynni mae eich cyflenwr yn ei amcangyfrif y byddwch yn ei ddefnyddio yn ystod y 12 mis nesaf

Bydd arnoch angen eich cod post hefyd a gwybod sut rydych yn talu am ynni.

# Sut mae dod o hyd i well bargeinion ynni

- Siaradwch gyda'ch cyflenwr neu edrychwch ar ei wefan.

- Defnyddiwch safle cymharu prisiau ar-lein cymeradwy - gellir cael hyd iddyn nhw yn http://www.goenergyshopping.co.uk/en-gb/help/comparison-sites.

- Cysylltwch â chyflenwyr eraill i gymharu prisiau.

- Os nad oes gennych ryngrwyd ar gael i chi, cysylltwch â gwasanaethau defnyddwyr Cyngor Ar Bopeth ar 03454 04 05

# Cyn newid

YNNI
-Y FARGEN
ORAU

- Mae cyflenwyr yn cynnig opsiynau talu amrywiol, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis yr un addas i'ch amgylchiadau chi.
- Mae gostyngiadau ar gael ar gyfer cyfrifon dau danwydd ac am reoli eich cyfrif ar-lein.
- Os oes gennych chi ddyled i'ch cyflenwr, holwch beth ydi'r opsiynau sydd ar gael i chi.
- Tariffau pris sefydlog ydi'r ffordd rataf ond fe allwch chi gael eich cosbi os byddwch yn newid cyn diwedd y cynnig arbennig.
- Os ydych chi'n cael y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, mae'n werth holi a fyddech yn dal i gael yr help hwn pe baech yn newid.

cyngor ar bopeth

ofgem

# Newid cyflenwr

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu newid cyflenwr.
- Gyda mesurydd talu wrth fynd, gallwch newid gyda dyled o hyd at £500.
- Os ydych yn rhentu ac yn gyfrifol am filiau ynni, mae gennych hawl i newid. Dim ond os ydi'r landlord yn talu'r biliau ynni y caiff ddewis y cyflenwr ynni.

**Os byddwch yn newid:**

- Does dim peryg y bydd eich cyflenwad ynni'n cael ei ddatgysylltu.
- Ni fydd arnoch angen mesurydd newydd.
- Bydd y nwy a'r trydan y byddwch yn ei gael yn eich cartref yn aros yr un fath.
- Yr unig wahaniaeth welwch chi fydd bod y bil yn dod gan eich cyflenwr newydd.

# Does dim rhaid i chi newid cyflenwr i arbed arian

**Tanwydd deuol** – ond cofiwch nad ydi tanwydd deuol yn rhatach bob amser. Weithiau mae'n gallu bod yn rhatach cael nwy a thrydan gan gyflenwyr gwahanol.

**Tymor penodol** – mae hyn yn golygu na fydd pris eich ynni'n newid am gyfnod y cynnig arbennig i gyd (efallai y bydd cosb am adael yn gynnar). Cofiwch fod posib i filiau gynyddu os ydych chi'n defnyddio mwy o ynni

**Cynigion ar y rhyngrwyd** – yn cynnig gostyngiadau i gwsmeriaid sy'n rheoli eu cyfrifon ar-lein

**Gall opsiynau talu arbed arian i chi neu eich helpu chi i drefnu eich arian:**

**Debyd uniongyrchol** – eich taliadau ynni'n dod yn syth o'ch cyfrif banc.

**Credyd safonol** – talu eich bil gyda siec, arian parod, cerdyn banc neu PayPoint/Payzone.

**Mesurydd talu wrth fynd** – talu ymlaen llaw am eich ynni drwy ychwanegu arian at gerdyn neu allwedd.

# Newid at gyflenwr newydd

YNNI -Y FARGEN ORAU

1. Cysylltwch â'r cyflenwr i gytuno ar fargen ynni newydd.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadarnhau pa fargen yr hoffech ei chael e.e. enw'r tariff.
3. Bydd contract yn cael ei anfon atoch – dylech ei ddarllen yn drylwyr a chadarnhau'r dyddiad y byddwch yn symud.
4. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi talu'r holl filiau dyledus i'ch cyflenwr presennol.
5. Darllenwch y mesurydd ar y diwrnod rydych chi'n newid cyflenwr er mwyn i chi allu gwirio eich biliau.

cyngor ar bopeth

ofgem

# Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (CGB)

Os ydych chi mewn oedran pensiwn, yn anabl, yn ddifrifol wael neu os oes gennych chi anawsterau clywed neu weld, byddwch yn gymwys i fod ar CGB eich cyflenwr. Gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau, gall cwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau fel y rhain:

- Archwiliad diogelwch am ddim ar gyfarpar nwy
- Adleoli mesurydd i sicrhau gwell mynediad
- Cynllun gwarchod cyfrinair
- Darllen y mesurydd bob chwarter
- Cynllun enwebai bil
- Rhybudd ymlaen llaw am darfu ar gyflenwad
- Biliau mewn fformat arall

# Cael help gyda'ch biliau ynni

•Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni'n cynnig rhyw fath o help i'w cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni.

•Os oes arnoch chi arian i'ch cyflenwr, mae'n rhaid iddo gynnig trefniant talu i chi sy'n ystyried eich amgylchiadau ariannol a'ch gallu i dalu. Siaradwch gyda'ch cyflenwr am eich opsiynau.

•Mae'r Llinell Gymorth Cynhesu'r Cartref yn cynnig cyngor hefyd – ffoniwch y llinell ar 0800 33 66 99. Yn yr Alban, gallwch hefyd ffonio Llinell Ynni Cartrefi'r Alban ar 0808 8082282.

# Gostyngiad Cartrefi Cynnes

YNNI
-Y FARGEN
ORAU

- Gostyngiad o £140.00 ydi hwn ar eich bil TRYDAN YN UNIG.
- Rydych chi'n gymwys yn awtomatig am y gostyngiad os oedd y canlynol i gyd yn berthnasol i chi ar y 12 Gorffennaf 2014:

  - Roedd eich cyflenwr yn rhan o'r cynllun

  - Roedd eich enw (neu enw eich partner) ar y bil

  - Roeddech yn cael yr elfen Credyd Gwarantedig o'r Credyd Pensiwn (hyd yn oed os oeddech yn cael Credyd Arbedion hefyd)
- Efallai eich bod yn gymwys hefyd os ydych chi'n cael rhai budd-daliadau. Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych chi'n gymwys ac edrychwch ar www.adviceguide.org.uk.

cyngor ar bopeth

ofgem

# Help gan y Llywodraeth

**Taliad Tanwydd y Gaeaf** – taliad blynyddol i bobl mewn oedran pensiwn i'w helpu i gadw'n gynnes dros y gaeaf. Mae'r taliadau'n amrywio rhwng £100 a £300, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol. Os nad ydych chi wedi bod yn derbyn y taliad yma, ffoniwch Linell Gymorth Taliad Tanwydd y Gaeaf ar 08459 15 15 15 neu ewch i www.gov.uk neu www.adviceguide.org.uk.

**Taliadau tywydd oer** – bydd teuluoedd cymwys sy'n dioddef tymheredd o dan sero gradd Celsius am saith diwrnod yn olynol rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth yn cael £25 am bob cyfnod o saith diwrnod yn awtomatig.

# Mentrau yn eich ardal chi

**ECO (Cymru, Lloegr a'r Alban):** gwelliannau inswleiddio a gwresogi i eiddo hŷn a theuluoedd ar incwm isel.

**Y Fargen Werdd (Cymru, Lloegr a'r Alban) :** gwelliannau i effeithlonrwydd ynni a delir drwy ychwanegu cost at eich bil trydan dros gyfnod o 25 mlynedd.

**Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (HEEPS):** yn helpu teuluoedd cymwys yn yr Alban i ostwng eu biliau a gwneud eu cartrefi'n fwy ynni effeithlon. **NYTH** ydi'r cynllun cyfatebol yng Nghymru.

Am wybodaeth am **ECO**, y **Fargen Werdd**, **HEEPS** neu **NYTH**, ewch i swyddfa leol Cyngor Ar Bopeth neu ffoniwch **y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS)** ar **0300 123 1234.** Ar gyfer **HEEPS**, ffoniwch **0808 808 2282** ac ar gyfer **NYTH** ffoniwch **0808 808 2244.**

# Lleihau eich biliau ynni drwy wneud eich cartref yn fwy ynni effeithlon

- Mae’r llywodraeth wedi datgan ei bod yn ddyletswydd ar i gyflenwyr ynni eich helpu chi gyda gwneud hyn.

- Cysylltwch â’ch cyflenwr ynni i weld pa help sydd ar gael. Gall yr help gynnwys inswleiddio am ddim.

- Mae’r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni’n gallu cynnig cyngor ar effeithlonrwydd ynni ar 0300 123 1234

# Tegwch i Bobl sy'n Talu Ymlaen Llaw

YNNI -Y FARGEN ORAU

**Ymgyrch gan Gyngor Ar Bopeth am ynni talu wrth fynd sy'n ceisio cyflawni'r canlynol:**

- Cynyddu'r cynhyrchion a'r tariffau sydd ar gael i gwsmeriaid talu wrth fynd
- Creu mwy o ymwybyddiaeth o'r hawl i newid cyflenwr, hyd yn oed gyda dyled bresennol o hyd at £500
- Hybu sut gall technoleg wneud defnyddio ynni talu wrth fynd yn fwy cyfleus ee ychwanegu arian a rheoli'r cyfrif ar-lein

Cadwch lygad am arolwg ar www.adviceguide.org.uk – byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn!

cyngor ar bopeth

ofgem

# Apwyntiadau un i un preifat ar gael (apwyntiadau Ynni – y Fargen Orau)

YNNI -Y FARGEN ORAU EXTRA

- Os hoffech chi neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod gael apwyntiad preifat gyda Cyngor Ar Bopeth i'ch helpu chi i ddelio gydag unrhyw un o'r materion canlynol, cofiwch roi gwybod i ni ar ffurflen adborth eich sesiwn.

- Mae ein cynghorwyr ni'n gymwys i'ch helpu chi gyda materion sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - ydych chi ar y tariff gorau ar gyfer eich amgylchiadau
  - grantiau i'ch helpu chi i dalu am fesurau effeithlonrwydd thermal yn eich cartref
  - datgan a hawlio'r budd-daliadau y mae gennych hawl i'w derbyn
  - delio â biliau tanwydd a phroblemau dyledion eraill

Os byddwch yn dod drwodd i'n peiriant ateb, rhowch eich enw a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd a byddwn yn eich ffonio yn ôl i drefnu apwyntiad cyn gynted â phosib.

- Rhowch wybod i ni heddiw os ydych chi eisiau apwyntiad. Neu cysylltwch â chydlynydd EBDx yn **CABxxx, Rhif ffôn uniongyrchol xxxxxx** [rhif cyfradd leol, dim premiwm] ar unrhyw adeg a gofyn am apwyntiad Ynni – y Fargen Orau am gyngor ychwanegol.

cyngor ar bopeth

ofgem

Cefnogir ymgyrch
Ynni – y Fargen Orau 2014/15 gan:

- British Gas
- EDF Energy
- First Utility
- ScottishPower
- SSE
- Utility Warehouse

Er ein bod wedi bod yn ofalus i sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn fanwl gywir, yn gyflawn ac yn ddibynadwy, nid yw Cyngor Ar Bopeth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb. Mae defnyddiwr yr wybodaeth yn cytuno bod posib i'r wybodaeth newid heb rybudd. I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, mae Cyngor Ar Bopeth yn eithrio unrhyw atebolrwydd am unrhyw hawliad, colled, gofynion neu ddifrod o unrhyw fath (pa un ai oedd yr hawliadau, y colledion, y gofynion neu'r difrod yn hysbys, neu bod modd eu rhagweld neu fel arall) sy'n codi o, neu'n gysylltiedig â, drafftio, manwl gywirdeb a/neu ddehongli'r wybodaeth hon, gan gynnwys, heb gyfyngiad, colled neu ddifrod anuniongyrchol neu ganlyniadol, a pha un ai'n codi mewn cyfraith camweddau (gan gynnwys esgeulustod), contract neu fel arall.

*Hawlfraint © 2014 Cyngor Ar Bopeth Cedwir pob hawl.* Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cynnwys hwn, na'r cynnwys yn gyfan, ar unrhyw ffurf, ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig penodol Cyngor Ar Bopeth.

Mae Citizens Advice yn enw gweithredu gan y National Association of Citizens Advice Bureaux, Rhif cofrestru'r elusen 279057, rhif TAW 726020276, Cwmni Cyfyngedig trwy Warant, Rhif cofrestru 1436945 Swyddfa gofrestredig Lloegr: Citizens Advice, 3rd Floor North, 200 Aldersgate Street, London, EC1A 4HD